# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid yng Nganolfan Gymued Penrhos**
**am 7.00pm Nos Fercher 28ain o Fawrth 2024**

1. Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng J Pierce Cyng D Jones-Morris Cyng B. Jones Cyng I Ellis Cyng J Lewis, a'r Clerc

2. <u>Ymddiheuriadau</u>

3 Cod Ymddygiad
Cyng L A James yn datgan ei bod yn aelod/ymddiriedolwr ar Bwyllgor Rheoli Canolfan Penrhos

4 Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28 -02-2024
Derbynnwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng D Jones-Morris gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierca

5 Materion yn codi o'r cofnodion
Mae Cysgodfan Bws Bryn Ogwen bellach wedi ei gosod – yn y diwedd mater i Trafnidiaerth Cymru oedd hyn yn hytrach na Cyngor Pentir na Cyngor Gwynedd wrth iddynt gymeryd i ystyriaeth anghenion Cymuned
Mater wedi codi yn y Cyngor Llawn ynglyn a fformat y Cofrestr Risg
Tra yn cytuno bod sawl fformat bosib Cytunodd yr Is-Grwp ystyried y mater yn eu cyfarfod nesaf fyddai ymlaen cyn diwedd Ebrill

<u>6 Adroddiad Ariannol</u>

a. Mantolen Ariannol 'Roedd yr adroddiad ariannol cyfredol wedi ei rhanu yn dangos £2,556-29 yn y cyfrif cyfredol a £40,784-12 yn y cyfrif cadw

7 Cofrestr Risg/Polisia

a. Yr Is-Grwp am drefnu cyfarfod cyn diwedd Ebrill i edrych drwy'r polisiau yn ogystal a'r gofrestr a ystyried y fformat ddefnyddir sy'n dilyn patrwm Unllais

8 Cadarnhau Taliadau a taliadau angen sylw

| | |
|---|---|
| Cyflog yn cynnwys ol-daliad | £ 1151.84 |
| H M R C yn cynnwys ol-daliad | £ 287.00 |
| Cyngor Gwynedd Torri gwair ychwanegol | £ 1,514.98 |
| Gwaith Cyfreithiol Gamlins | £ 1936 .44 |
| Cymen Cyfieithu ffeiliau | £ 705. 03 |
| S E Jones Cyfieithu ar y pryd | £ 40 .00 |
| Costau blynyddol y Clerc | £ 559. 59 |

9 Ceisiadau Nawdd
Cylch Ti a Fi Cais wedi bod yn e-bost Clerc@Pentir ag wedi ei ystyried yn Cyngor Llawn Mis Mawrth Cadarnhau yr argymelliad i cyfrannu £300.00
Er bod argymhelliad i gyfrannu £150.00 i Dawns i Bawb ers 2 fis dim ymateb wedi ei dderbyn wrth holi ble oedd angen anfon yr arian

10 Prosiectau

i. Ysgol Y Faenol Dim diweddariad pellach arwahan i ymateb Gamlins Isod
ii. Capel y Fynwent Y gwaith wedi ei osod i Gwmni Hughes & Hughes sydd wedi derbyn ac wedi cael Goriad y Capel i gychwyn ar y gwaith llawr/dwr i'r adeilad ad

11 I'w trafod hefyd

Yn dilyn anfon Cyngor Cyfreithiol oedd y Pwyllgor Rheoli wedi ei rannu yn y Cyngor Llawn at ein Cyfrieithwyr - Gamlins ‘roedd ymateb wedi ei dderbyn ag wedi ei rannu gyda Cadeirydd ag Is-gadeirydd y Cyngor.
Argymhellwyd i’r Clerc anfon yr ymateb at Brif Weithredwr Cyngor Cyngor Gwynedd Y Swyddog Monitro a’r Adran Addysg gan fod yn berffaith glir mae Cyngor Gwynedd fel Tenantiaid a Cyngor Gwynedd fel Llandordiaid ddylia fod yn trafod y brydles a’r drwydded

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00